# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Cartref Nyrsio Old Vicarage**

**Cartref Nyrsio Old Vicarage**
**Dulais Fach Road**
**Tonna**
**Castell-nedd**
**SA11 3JW**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

19/05/2023

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Cartref Nyrsio Old Vicarage

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal â Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Old Vicarage Limited (THE) |
| Lleoedd cofrestredig | 42 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 31 Awst 2021 a 2 Medi 2021 |
| A yw’r gwasanaeth hwn yn darparu’r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

## Crynodeb


Mae cartref nyrsio Old Vicarage yn adeilad mawr sy’n lletya 41 o bobl ag anghenion nyrsio. Mae'r bobl yn fodlon ar y gofal a'r cymorth a roddir iddynt. Gwelsom ryngweithio da rhwng y staff a'r bobl. Mae gan y gwasanaeth nifer o ardaloedd cymunedol sydd wedi'u cyflwyno'n dda. Mae gwaith adnewyddu yn digwydd mewn ardaloedd nad ydynt yn effeithio'n uniongyrchol ar y bobl ac mae ailaddurno yn rhaglen barhaus.

Mae gan y bobl gynlluniau cymorth da ac asesiadau risg sy'n cael eu hadolygu'n rheolaidd gyda pherthnasau lle bynnag y bo modd. Mae mecanweithiau ar waith i ddiogelu'r bobl ac mae'r staff yn deall eu cyfrifoldebau i fod yn wyliadwrus ac i adrodd am unrhyw bryderon. Mae systemau da ar waith ar gyfer rhoi meddyginiaeth yn ddiogel. Mae'r staff yn cael eu cefnogi'n dda; adlewyrchir hyn mewn sesiynau goruchwylio ac arfarnu da. Mae'r staff yn cael hyfforddiant ac yn adnabod y bobl yn dda, gan ddeall eu hanghenion a chefnogi eu canlyniadau. Caiff gwiriadau cyn cyflogi eu cynnal er mwyn sicrhau bod y staff yn addas i weithio gyda phobl sy'n agored i niwed.

Mae Unigolyn Cyfrifol gweithredol a gweladwy yn y gwasanaeth sy'n ymweld â'r gwasanaeth yn ddyddiol. Fodd bynnag, mae angen gwella'r dogfennau adrodd sydd eu hangen i hyrwyddo ansawdd y gwasanaeth.

## Llesiant

Mae'r bobl yn hapus ac mor iach ag y gallant fod. Dywedodd perthynas wrthym; *“Wonderful my dad is in a good home, they make homemade food, it’s always spotless, always clean”. “Staff are friendly, it’s a calm peaceful environment”.* Mae tîm mawr o'r staff medrus ar waith i gefnogi lles a chanlyniadau personol y bobl. Mae'r bobl yn derbyn gofal o ansawdd da sy'n bodloni eu hanghenion.

Caiff iechyd emosiynol, corfforol a meddyliol y bobl ei gynnal. Mae rheolaeth dda ar feddyginiaeth yn y gwasanaeth ac mae cysylltiadau da gyda'r fferyllfa leol er mwyn archebu meddyginiaethau. Mae llawer o'r staff wedi bod yn eu swyddi ers peth amser a gallant adnabod arwyddion o salwch mewn pobl a rhoi gwybod am unrhyw bryderon. Mae systemau da ar waith i fonitro iechyd y bobl ac mae’r rhain ar gael yn hawdd ar y system rheoli gofal electronig. Mae'r bobl yn cymryd rhan mewn gweithgareddau wedi'u cynllunio yn y gwasanaeth. Mae recriwtio cydlynydd gweithgareddau llawn amser a chynorthwyydd yn cefnogi rhaglen o weithgareddau unigol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn gan fod gan y rhan fwyaf o'r bobl anghenion cymhleth. Dywedodd gweithiwr proffesiynol wrthym; *“The old Vic is my favourite home”.*

Caiff y bobl eu cefnogi mewn gwasanaeth lle mae goruchwyliaeth ddigonol. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn gweithio yn y gwasanaeth bob dydd, yn cyfarfod â'r bobl a'r teuluoedd yn anffurfiol. Fodd bynnag, nid oes unrhyw ymweliadau ffurfiol na gwiriadau sicrhau ansawdd chwarterol yn cael eu cynnal gan yr Unigolyn Cyfrifol. Adlewyrchir hyn mewn adroddiadau ansawdd gofal chwe-misol sydd wedi'u hysgrifennu'n wael. Ni allem weld dull systematig o wella ansawdd. Trafodwyd hyn gyda'r Unigolyn Cyfrifol a fydd yn cael ei gefnogi gan y rheolwr busnes i sicrhau dealltwriaeth a chwblhau'r adroddiadau hyn wrth symud ymlaen. Mae hwn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu. Caiff hyn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf.

Mae'r bobl yn byw mewn llety addas sy'n cefnogi ac yn annog eu llesiant. Mae eu hystafelloedd gwely wedi'u personoli gyda chlustogau, lluniau o'r teulu ac eitemau sy'n bwysig iddynt. Mae'r ardaloedd cymunedol wedi'u cyflwyno'n dda, yn lân ac yn rhydd o annibendod. Mae gwiriadau diogelwch perthnasol yn cael eu cynnal; fodd bynnag, gwelsom rai bylchau yn y cofnodion cynnal a chadw, mae hyn wedi'i drafod gyda'r rheolwr a'r unigolyn cyfrifol.

## Gofal a Chymorth

Mae gan y darparwr gynlluniau personol ac asesiadau risg da ar waith sy'n adlewyrchu anghenion y bobl, sy'n cael eu hadolygu'n rheolaidd. Gwelsom fod safon y gofal a'r cymorth yn dda, a chaiff ei gadarnhau gan yr ymatebion gan berthnasau a gweithwyr proffesiynol. Roedd y sylwadau'n cynnwys *"I have observed staff with the residents and their families, and they have got all the time in the world for them and their needs". "They always seem to want the best for their residents".*

Mae'r darparwr yn ystyried ystod eang o wybodaeth i gadarnhau ei allu i fodloni anghenion y bobl y mae'n eu cefnogi. Mae polisïau a gweithdrefnau wedi'u sefydlu ar gyfer asesiad cychwynnol y bobl, sy'n dangos anghenion a chanlyniadau'r bobl i'r staff. Mae gan y darparwr Datganiad o Ddiben; dogfen sy'n dangos i'r bobl yr hyn y gallant ei ddisgwyl gan y gwasanaeth a disgrifiad o'r broses derbyn a chwyno. Mae'r Datganiad o Ddiben wedi'i ysgrifennu'n glir a'i adolygu'n rheolaidd gan y rheolwr. Mae'r canllaw i'r gwasanaethau yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen ar y bobl i wneud cwyn, a thelerau ac amodau, i gefnogi eu dewis wrth dderbyn y gwasanaeth. Dywedodd perthnasau wrthym; *I looked at a number of homes and I felt this one was the best for my mother".*

Mae hwn yn wasanaeth sy'n cael ei reoli'n dda sy'n rhoi'r bobl wrth wraidd yr hyn a wnânt. Gwelsom gynlluniau personol da ac asesiadau risg ar waith sy'n adlewyrchu anghenion y bobl, sy'n cael eu hadolygu'n rheolaidd gyda'r bobl a'u perthnasau lle bo modd, a chadarnhawyd hyn pan siaradom â pherthnasau.

Mae'r bobl yn cael eu diogelu rhag niwed ac esgeulustod. Mae'r staff y siaradwyd â nhw yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau i adrodd am unrhyw bryderon sydd ganddynt am yr unigolion y maent yn eu cefnogi. Gwelsom gynllun hyfforddi ar waith i gefnogi hyn. Mae polisi diogelu ar waith ac mae gan y staff fynediad ato. Mae Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid ar waith ar gyfer y bobl nad oes ganddynt y gallu i wneud eu penderfyniadau eu hunain am agweddau ar eu gofal a chymorth a llety. Mae'r rhain yn eu lle i gadw'r bobl yn ddiogel. Gwelsom fod y rhain yn cael eu hadolygu a'u diweddaru yn ôl yr angen.

Mae systemau da ar waith yn y gwasanaeth ar gyfer rheoli meddyginiaethau a chynhelir archwiliadau rheolaidd. Cwblheir cofnodion rhoi meddyginiaeth yn gywir a'r nyrs gofrestredig sydd ar ddyletswydd sy'n gyfrifol am roi meddyginiaeth. Gwelsom fod meddyginiaeth yn cael ei storio'n gywir, mewn troliau dan glo ac mewn ystafell dan glo. Cynhelir gwiriadau tymheredd dyddiol a'u dogfennu i sicrhau bod meddyginiaeth yn cael ei storio'n ddiogel. Dywedodd gweithiwr proffesiynol wrthym; *"The qualified nurses are dedicated to managing the staff to provide the best possible care for their patients".*

## Yr Amgylchedd

Mae'r eiddo yn diwallu anghenion y bobl. Mae'r cartref yn hen adeilad y mae angen ei gynnal a'i gadw'n rheolaidd. Mae gan y darparwr raglen cynnal a chadw ar waith sy'n cael ei hadolygu'n rheolaidd. Dywedodd gweithiwr proffesiynol wrthym; *“There is an ongoing programme of redecoration, which sees each room cleaned and repainted between residents”.* Gwelsom waith yn cael ei wneud yn ystod yr arolygiad. Dywedodd y bobl a'r staff wrthym y byddent yn graddio'r amgylchedd yn 8 allan o 10 er gwaethaf y gwaith adnewyddu oedd yn cael ei wneud. Mae'r gwasanaeth yn gyfforddus ac yn lân, gyda mannau cymunedol wedi'u cyflwyno'n dda ar gael i'r bobl a'u perthnasau gymdeithasu. Mae'r bobl yn hapus ac yn cael eu hannog i bersonoli eu hystafelloedd gyda lluniau a dodrefn meddal.

Mae gan y darparwr systemau ar waith i liniaru risgiau i iechyd a diogelwch y bobl sy'n cael eu nodi ac yr ymdrinnir â nhw. Gwelsom fod offer codi a chario yn cael eu gwasanaethu'n rheolaidd. Mae cofnodion diogelwch yn dangos bod gwiriadau dŵr yn cael eu cynnal. Fodd bynnag, gwelsom fylchau yn y cofnodion cynnal a chadw. Trafodwyd yr angen i gryfhau'r systemau hyn gyda'r rheolwr a'r unigolyn cyfrifol. Mae deunyddiau sydd â'r potensial i achosi niwed yn cael eu trefnu a'u storio'n ddiogel ac eithrio silindrau ocsigen; mae'r darparwr yn mynd i'r afael â hyn. Cedwir gwybodaeth bersonol y bobl yn ddiogel mewn cypyrddau dan glo a chedwir unrhyw archifau mewn ystafell dan glo. Mae'r system galwadau brys ar gael i'r bobl a phan gafodd ei phrofi, roedd y staff gofal yn cyrraedd yn brydlon.

Mae mesurau rheoli heintiau ar waith, gwelsom drin bwyd yn briodol. Rhoddwyd sgôr Hylendid Bwyd o bedwar i'r gegin, sy'n golygu bod y safonau hylendid yn dda. Mae'r staff y gegin yn cyfeirio at ffeil sy'n cynnwys holl ofynion dietegol pobl, ac roedd yn ymddangos bod staff y gegin yn wybodus am ddiet arbenigol. Dywedodd perthynas wrthym; *“There is homemade nutritious food. Skin integrity is good, and they communicate with me”.* Ategwyd hyn gan berthnasau eraill, a'r gweithwyr proffesiynol a ddywedodd wrthym fod y bwyd yn dda, yn iach ac yn fwyd cartref, gan gefnogi lles y bobl. Mae gan y gwasanaeth gyfleusterau a systemau golchi dillad da, mae'r offer yn gweithio'n iawn a chynhelir gwiriadau cynnal a chadw priodol. Mae ardaloedd dynodedig ar gyfer golchi dillad glân a'r rhai sydd wedi'u defnyddio, a mannau ar gyfer storio lliain ffres.

## **Arweinyddiaeth** a Rheolaeth

Mae gan y darparwr systemau ar waith i sicrhau bod y gwasanaeth yn rhedeg yn esmwyth. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r gwasanaeth bob dydd, yn siarad â'r bobl, eu perthnasau ac yn ymuno â chyfarfodydd y tîm gofal a chlinigol â'r staff. Fodd bynnag, nid yw'r ymweliadau ffurfiol â'r gwasanaeth wedi'u cynnal na'u dogfennu ac nid yw'r adroddiadau o ansawdd y gofal yn adlewyrchu cyfranogiad yr unigolyn cyfrifol yn ddigonol. Dylai adroddiadau gynnwys safbwyntiau'r bobl, y staff, eu perthnasau, a chamau gweithredu wedi'u dogfennu sy'n ofynnol gan y rheolwr i gynnal a gwella ansawdd y gofal a'r amgylchedd. Mae hyn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu, byddwn yn ystyried y mater hwn yn ystod yr arolygiad nesaf.

Caiff y bobl eu cefnogi gan y wasanaeth sy'n diwallu eu hanghenion gyda'r staff â chymwysterau addas sydd â'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau i gefnogi'r bobl i ddiwallu eu hanghenion a'u canlyniadau unigol. Dywedodd y staff wrthym; *"Induction, I have been shown how to sit people up in the chair, how to bed bath someone, how to be professional".* A *"The more I work here, the better and more confident I'm getting".* Mae cynlluniau hyfforddi'r staff a thrafodaethau gyda'r rheolwr a'r staff yn dangos bod y staff yn cael hyfforddiant cyson er mwyn sicrhau canlyniadau cadarnhaol i'r bobl. Gwnaethom edrych ar ffeiliau personél pump aelod o staff a gweld bod y dogfennau gwirio recriwtio cyn cyflogi gofynnol ar waith. Mae hyn yn cynnwys gwiriad cyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Mae'r staff yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi a'u gwerthfawrogi'n dda trwy oruchwylio a gwerthuso da rheolaidd. Mae'r dogfennau a welwyd yn dangos bod pob aelod o'r staff wedi'i gofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru neu'n gweithio tuag at gofrestru. Mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn rheoleiddio gofal cymdeithasol yng Nghymru. Mae gan y staff ddealltwriaeth dda o'r broses ddiogelu. Mae polisi a gweithdrefn diogelu clir ar waith sy'n hygyrch i'r staff. Dywedodd y staff wrthym eu bod wedi cwblhau hyfforddiant diogelu a bod ganddynt y wybodaeth a'r hyder i ddeall ac adrodd ar unrhyw faterion.

Ceir arolygiaeth dda o'r trefniadau ariannol a buddsoddiad yn y gwasanaeth gan y rheolwr busnes. Ers yr arolygiad diwethaf mae ardaloedd cymunedol wedi'u huwchraddio a dodrefn newydd wedi'u prynu. Mae'r lefelau staffio a arsylwyd yn effeithiol wrth gefnogi'r bobl i ddiwallu eu hanghenion. Mae buddsoddiad parhaus i wella'r amgylchedd hefyd yn amlwg drwy drafod gyda'r rheolwr busnes, y bobl a'r staff. Cefnogir hyn gan y cynllun adnewyddu.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 80 | Ni allem weld dull systematig o wella ansawdd. Ni chynhelir adroddiadau ymweliadau gwasanaeth. Nid yw'r adroddiadau ar ansawdd y gofal yn dangos unrhyw ddadansoddiad o wella ansawdd o fewn y gwasanaeth. | Newydd |
| 15 | Rheoliad 15 – Cynllun Personol. Nid oedd asesiadau risg ar gael pan ofynnwyd amdanynt mewn tair allan o bedair 4 ffeil a welwyd gan AGC. | Cyflawnwyd |
| 21 | Rheoliad 21 – Safonau Gofal a Chymorth | Cyflawnwyd |
| 58 | Rheoliad 58 – Meddyginiaethau. Llofnodion ar goll ar y siartiau MAR a hyfforddiant staff. | Cyflawnwyd |
| 44 | Rheoliad 44 (4) (d) (h) – Adeiladwaith cadarn y safle a gwaith cynnal a chadw ac atgyweirio strwythurol. | Cyflawnwyd |
| 56 | Rheoliad 56 – Nid oedd y mesurau Hylendid na Rheoli Heintiau mewn perthynas â COVID-19 yn ddigonol. | Cyflawnwyd |
| 36 | Nid yw'r staff yn cael yr hyfforddiant na'r dysgu craidd diweddaraf i'w galluogi i fodloni gofynion eu rôl a diwallu anghenion yr unigolion sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Mae hyn yn cynnwys hyfforddiant ar ddefnyddio unrhyw gyfarpar arbenigol. | Cyflawnwyd |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 31/07/2023